

2017 Rhif (Cy.)

2017 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A487
(Ffordd Osgoi Porthmadog,
Minffordd a Thremadog, Gwynedd)
(Terfynau Cyflymder 30 mya a 40
mya) 2017

The A487 Trunk Road
(Porthmadog, Minffordd &
Tremadog Bypass, Gwynedd) (30
mph and 40 mph Speed Limits)
Order 2017

Gwnaed 20 Mehefin 2017

Made 20 June 2017

Yn dod i rym 23 Mehefin 2017

Coming into force 23 June 2017

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Abergwaun i Fangor yr A487, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 84(1)(a) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gogledd Cymru, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A487 Fishguard to Bangor Trunk Road, in exercise of the powers conferred upon them by sections 84(1)(a) and (2) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1) and after consultation with the Chief Officer of North Wales Police, make this Order.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

Title, Interpretation and Commencement

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 23 Mehefin 2017 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Ffordd Osgoi Porthmadog, Minffordd a Thremadog, Gwynedd) (Terfynau Cyflymder 30 mya a 40 mya) 2017.

1. This Order comes into force on 23 June 2017 and its title is The A487 Trunk Road (Porthmadog, Minffordd & Tremadog Bypass, Gwynedd) (30 mph and 40 mph Speed Limits) Order 2017.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

2. In this Order:

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw:

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(2);

(a) any vehicle being used by the emergency services for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(2);

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 84(1) gan adran 45(2) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p.40). Amnewidiwyd adran 84(2) gan baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22). Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(2) 1984 p.27; diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân a Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefinol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a Llysoedd 2013 (p.22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p.20).

(1) 1984 c.27; section 84(1) was substituted by the Road Traffic Act 1991 (c.40), section 45(2). Section 84(2) was substituted by the New Roads and Street Works Act 1991 (c.22), Schedule 8, paragraph 61. By virtue of S.I. 1999/672, article 2 and Schedule 1, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(2) 1984 c.27; Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c.21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c.15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c.22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c.20), section 50(4) and (5).

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

- (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
- (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel; ac

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd Abergwaun i Fangor yr A487 rhwng Porthmadog a Thremadog yn Sir Gwynedd;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Cyfyngiadau

3. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1.

4. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru

Dyddiedig

20 Mehefin 2017

Nina Ley
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

YR ATODLENNI

ATODLEN 1

Terfyn Cyflymder 30 mya

Y darn o'r gefnffordd o'r enw Ffordd Osgoi Porthmadog, Minffordd a Thremadog, Gwynedd, sy'n ymestyn o bwynt 220 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Stryd y Llan, Tremadog hyd at bwynt 295 o fetrau i'r dwyrain o'r gyffordd honno.

(b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

- (i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or
- (ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A487 Fishguard to Bangor trunk road between Porthmadog and Tremadog in the County of Gwynedd.

Restrictions

3. No person shall drive any motor vehicle at a speed exceeding 30 miles per hour on the lengths of the trunk road described in Schedule 1.

3. No person shall drive any motor vehicle at a speed exceeding 40 miles per hour on the length of the trunk road described in Schedule 2.

Signed under authority of the Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure, one of the Welsh Ministers

Dated

20 June 2017

Nina Ley
Head of Asset Management and Standards
Welsh Government

SCHEDULES

SCHEDULE 1

30 mph Speed Limit

The length of the trunk road known as the Porthmadog, Minffordd and Tremadog Bypass, Gwynedd that extends from a point 220 metres east of the centre-point of its junction with Church Street, Tremadog to a point 295 metres east of that junction.

Y darn o'r gefnffordd yn Nhremadog, Gwynedd sy'n ymestyn o bwynt 43.5 o fetrau i'r dwyrain o ben de-ddwyreiniol yr ynys holli cyfagos i Gylchfan Tremadog hyd at bwynt 60 metr i'r dwyrain o ben de-ddwyreiniol yr ynys holli honno.

ATODLEN 2
Terfyn Cyflymder 40 mya

Y darn o'r gefnffordd o'r enw Ffordd Osgoi Porthmadog, Minffordd a Thremadog, Gwynedd sy'n ymestyn o bwynt 60 metr i'r dwyrain o ben de-ddwyreiniol yr ynys holli cyfagos i Gylchfan Tremadog hyd at bwynt 220 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Stryd y Llan, Tremadog.

The length of the trunk road at Tremadog, Gwynedd that extends from a point 43.5 metres east of the south-eastern end of the splitter island adjacent to Tremadog Roundabout to a point 60 metres east of the south-eastern end of that splitter island.

SCHEDULE 2
40 mph Speed Limit

The length of the trunk road known as the Porthmadog, Minffordd and Tremadog Bypass, Gwynedd that extends from a point 60 metres east of the south eastern end of the splitter island adjacent to Tremadog Roundabout to a point 220 metres east of the centre-point of its junction with Church Street, Tremadog.

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A487
(FFORDD OSGOI PORTHMADOG,
MINFFORDD A THREMADOG, GWYNEDD)
(TERFYNAU CYFLYMDER 30 MYA A 40 MYA)
2017**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 84(1)(a) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Effaith y Gorchymyn fydd gosod terfynau cyflymder o 30 mya a 40 mya ar y darnau o gefnffordd yr A487 o'r enw Ffordd Osgoi Porthmadog, Minffordd a Thremadog, Gwynedd a bennir yn yr Atodlenni i'r Hysbysiad hwn. Daw'r Gorchymyn i rym ar 23 Mehefin 2017.

Yn ystod cyfnod o 6 wythnos o 21 Mehefin 2017, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn a'r plan cysylltiedig, yn rhad ac am ddim, yn ystod oriau agor arferol yn Llyfrgell Porthmadog, Stryd y Llan, Porthmadog, Gwynedd LL49 9HX neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1119365/1.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru (detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau Statudol Lleol/ Gorchymynion Traffig Parhaol/ 2017).

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

YR ATODLENNI

**ATODLEN 1
Terfyn Cyflymder 30 mya**

Y darn o gefnffordd yr A487 sy'n ymestyn o bwynt 220 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Stryd y Llan, Tremadog hyd at bwynt 295 o fetrau i'r dwyrain o'r gyffordd honno.

Y darn o gefnffordd yr A487 sy'n ymestyn o bwynt 43.5 o fetrau i'r dwyrain o ben de-ddwyreiniol yr ynys hollti cyfagos i Gylchfan Tremadog hyd at bwynt 60 metr i'r dwyrain o ben de-ddwyreiniol yr ynys hollti honno.

**THE A487 TRUNK ROAD (PORTHMADOG,
MINFFORDD & TREMADOG BYPASS,
GWYNEDD) (30 MPH AND 40 MPH SPEED
LIMITS) ORDER 2017**

The Welsh Ministers have made an Order under section 84(1)(a) and (2) of the Road Traffic Regulation Act 1984, the effect of which is to impose 30 mph and 40 mph speed limits on the lengths of the A487 trunk road known as the Porthmadog, Minffordd and Tremadog Bypass, Gwynedd specified in the Schedules to this Notice. The Order comes into force on 23 June 2017.

During a period of 6 weeks from 21 June 2017, a copy of the Order and associated plan may be inspected, free of charge, during normal opening hours at Porthmadog Library, Stryd y Llan, Porthmadog, Gwynedd LL49 9HX or may be obtained free of charge from the address below quoting reference number qA1119365/1.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.gov.wales (select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Local Statutory Instruments/ Permanent Traffic Orders/ 2017).

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

M D BURNELL
Transport
Welsh Government

SCHEDULES

**SCHEDULE 1
30 mph Speed Limit**

The length of the A487 trunk road that extends from a point 220 metres east of the centre-point of its junction with Church Street, Tremadog to a point 295 metres east of that junction.

The length of the A487 trunk road that extends from a point 43.5 metres east of the south-eastern end of the splitter island adjacent to Tremadog Roundabout to a point 60 metres east of the south-eastern end of that splitter island.

ATODLEN 2
Terfyn Cyflymder 40 mya

Y darn o gefnffordd yr A487 sy'n ymestyn o bwynt 60 metr i'r dwyrain o ben de-ddwyreiniol yr ynys holli cyfagos i Gylchfan Tremadog hyd at bwynt 220 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Stryd y Llan, Tremadog.

SCHEDULE 2
40 mph Speed Limit

The length of the A487 trunk road that extends from a point 60 metres east of the south-eastern end of the splitter island adjacent to Tremadog Roundabout to a point 220 metres east of the centre-point of its junction with Church Street, Tremadog.